

cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



O Ddrws i Ddrws

Prosiect Ffyrdd at Les

Mae Prosiect Ffyrdd at Les sy'n cael ei redeg gan O Ddrws i Ddrws yn wasanaeth cludiant cymunedol hyblyg, o ddrws i ddrws, sy'n galluogi pobl i fynychu apwyntiadau meddygol hanfodol, mynd i gael trin eu gwallt, mynd i'r banc neu gymdeithas adeiladu, siopa yn yr archfarchnad neu fynychu gweithgareddau a grwpiau cymdeithasol. Daeth y prosiect yn fyw ar ôl cael bron i £100,000 o gyllid gyda chymorth tîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru.

"Mae'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn rheolaidd yn rhoi adborth mor gadarnhaol," meddai Wil Parry, Rheolwr Prosiect yn O Ddrws i Ddrws. "Mae'n amlwg bod y teithwyr yn teimlo y gallant ddibynnu arnon ni ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth cyfeillgar, cysurion rydyn ni'n ei ddarparu."

Mae tlodi trafniadaeth yn broblem fawr yn ein cymuned wledig. Oherwydd y pellteroedd y mae'n rhaid i bobl deithio i gyrraedd siopau a gwasanaethau, mae mwy o berchnogaeth ceir na'r cyfartaledd, ond mae prisiau tanwydd hefyd yn uwch, tra bod incwm pobl yng Ngwynedd gyda'r isaf yn y DU gyfan. Pryder arall yw unigedd oherwydd bod llawer o bobl yn byw gryn bellter oddi wrth eu cymydog agosaf. Roeddem yn pryderu bod llawer o bobl hŷn yn unig iawn - dywedodd ein gyrwyr cludiant cymunedol fod eu teithwyr yn dweud yn aml mai'r gyrrwr oedd yr unig berson yr oedden nhw wedi siarad ag ef yr wythnos honno."

"Mae teithiau cludiant cymunedol yn sefyllfaoedd cymdeithasol," ychwanegodd Wil, "yn rhywle y gall teithwyr gwrrd â phobl a gwneud ffrindiau newydd. Gall amseroedd teithio fod yn hir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac anogir teithwyr i sgwrsio â'i gilydd. Mae'r ymdeimlad hwn o gymuned ar y cerbyd yn elfen bwysig o'r cymorth i bobl, yn enwedig y rhai sy'n teimlo'n fregus ac sydd heb lawer o gyfleoedd i ryngweithio â phobl eraill. Mae'n bwysig bod ein teithwyr yn teimlo'n ddiogel ar ein cerbydau, yn enwedig gan fod yr angen am y gwasanaeth yn deillio'n aml o golli partner neu briod. Mae ein gyrwyr a'n gwirfoddolwyr cyfeillgar ac amyneddgar yn rhoi'r sicrwydd a'r gefnogaeth y mae eu gwir angen i'n holl deithwyr."

Er bod mwyafrif y bobl sy'n defnyddio O Ddrws i Ddrws yn hŷn, maen nhw yno hefyd i gefnogi pobl iau sydd eu hangen.

"Fyddwn i ddim yn gallu gwneud dim byd heboch chi! Byddwn yn llythrennol yn methu mynd i unlle" meddai un defnyddiwr sy'n cael ffitiau epileptig sy'n ei hatal rhag gyrru, ac sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gyrraedd y

gwaith ac i fynd â'i merch i'r feithrinfa. "Cyn i mi ddod o hyd i O Ddrws i Ddrws, doeddwn i ddim yn gallu gwneud unrhyw un o'r pethau arferol y mae mamau eraill yn ei wneud - mynd i grwpiau mam a'i phlentyn a mynd â'r plant i ddigwyddiadau. Mae'n anodd i'r rhai sydd â thrafnidiaeth gyhoeddus wrth law sylweddoli pa mor hanfodol yw car pan ydych chi'n byw mewn ardal wledig. Mae pobl yn gwbl ddibynnol ar eu car, a phan nad ydyn nhw'n gallu gyrru, mae eu bywydau'n dod i stop."

"Heb gludiant cymunedol, fyddai llu o grwpiau sydd wedi'u sefydlu er mwyn lleddfu unigrwydd ac arwahanrwydd ddim yn gallu parhau," meddai Wil wrthym, "oherwydd na fyddai eu haelodau yn gallu eu cyrraedd. Rydym hefyd yn cynnal gweithgareddau cymunedol a digwyddiadau cymdeithasol ein hunain i leihau unigedd, ac rydym yn awyddus i annog pobl i gwrdd er mwyn bod yn gynhafiaeth ac yn gyfeillion i'w gilydd. Roeddem hefyd yn gwybod bod pobl yn aml yn ei chael hi'n anodd cyrraedd ysbytai lleol a chyfleusterau meddygol eraill, ac y gallent fod yn mynd heb driniaeth yr oedd gwir ei hangen arnynt oherwydd hynny. I bobl o oedran gweithio, gall fod yn anodd cyrraedd safleoedd cyflogaeth oherwydd trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig, a thrwy ein prosiect Ffyrdd at Les, roeddem am helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn. "

Trwy weithio gyda thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru, llwyddodd O Ddrws i Ddrws i gael cyllid i ddatblygu eu gwasanaethau cludiant cymunedol. Yn ogystal â derbyn £10,000 gan Sefydliad Garfield Weston tuag at eu costau craidd, mae O Ddrws i Ddrws hefyd wedi sicrhau Grant Pawb a'i Le o £99,639 ar gyfer eu prosiect Ffyrdd at Les, sy'n golygu eu bod yn gallu datblygu mwy o gludiant i wasanaethau iechyd, cludiant i weithgareddau cymunedol, a chludiant i'r gwaith i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.

